# Cofnodion y Bwrdd Wedi'u Cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | **Cyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (Busnes)** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 23 Mawrth 2017 |
| **Lleoliad** | YMCA<br>Ffordd Mendalgief<br>Casnewydd<br>CP20 2HF |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Diane McCrea (Cadeirydd)<br>Dr Madeleine Havard (Dirprwy Gadeirydd)<br>Syr Paul Williams (Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth)<br>Andy Middleton (Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig)<br>Nigel Reader (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg)<br>Dr Ruth Hall<br>Dr Elizabeth Haywood<br>Karen Balmer<br>Howard Davies<br>Zoë Henderson<br>Chris Blake<br>Dr Emyr Roberts (Prif Weithredwr) |
| **Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:** | Tim Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth<br>Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r De (cyrhaeddodd ar gyfer Eitem 1 – briffio lleol a gadawodd yn ystod Eitem 9)<br>Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu<br>Niall Reynolds, Cyfarwyddwr y Portffolio Gweddnewid<br>Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol |

| | |
|---|---|
| **Eraill a oedd yn bresennol:** | Howard Davies, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad – Eitem 8<br>Sue Ginley, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol – Eitem 8<br>John Hogg, Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru – Eitem 1<br>Catrin Grimstead, Uwch-swyddog Rheoli Adnoddau Naturiol – Eitem 1<br>Alison Boyes, Rheolwr Datblygu Rhaglen Gwastadeddau Byw, RSPB – Eitem 1<br>Andrew Johnson, Pennaeth Cynllunio Pobl a Newid Busnes – Eitem 4<br>Sam Carpenter, Uwch-gynghorydd Cynllunio'r Gweithlu a Chydraddoldeb – Eitem 4<br>Michelle Van-Velzen, Arweinydd y Tîm Rheoli Tir yn Gynaliadwy – Eitem 5<br>David Cavell, Pennaeth yr Adran Gyfreithiol – Eitem 9<br>Brian Pawson, Uwch-gynghorydd Amaethyddiaeth – Eitem 9 |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Geralene Mills<br>Cassandra Hamblett |

## Eitem 1 – Busnes Safonol y Bwrdd

1. Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol i'r cyfarfod, yn ogystal â chydnabod nifer o fynychwyr cyhoeddus.

2. Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Catherine Smith ac Ashleigh Dunn. Nodwyd fod Gareth O'Shea wedi ei oedi ac y byddai'n cyrraedd ar gyfer y briffio lleol.

## Datganiadau o Fuddiant

3. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau newydd o fuddiant o ran yr agenda. Nodwyd bod y gofrestr Datganiadau o Fuddiant wedi ei diweddaru yn cael ei rhannu yn ystod y cyfarfod, i gael ei chadarnhau'n derfynol gan Aelodau'r Bwrdd.

## Cyflwyniad ar brosiect Gwastadeddau Byw – Gwent

4. Cyflwynodd Gareth O'Shea a John Hogg brosiect Partneriaeth Tirwedd Gwastadeddau Byw i'r Bwrdd a chroesawu Alison Boyes, RSPB, a Catrin Grimstead, Cyfoeth Naturiol Cymru.

5. Esboniodd Catrin y lansiwyd y prosiect ym mis Tachwedd 2015 ar ôl ennill cyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae'n brosiect uchelgeisiol sy'n ysbrydoli gyda

Cyfoeth Naturiol Cymru, yr RSPB a 12 o bartneriaid lleol eraill. Mae'r dirwedd wedi dirywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae hyn yn cael sylw trwy amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys prosiectau addysgol gyda chymunedau lleol.

6. Ceir sawl mater allweddol yn y prosiect, gan gynnwys:
   a) Heriau byrdymor gyda chyllid
   b) Heriau hirdymor o ran etifeddiaeth
   c) Cynnal ethos y prosiect ar ôl ei gwblhau
   ch) Dangos camau ataliol yn hytrach na chlirio llanast dilynol
   d) Etifeddiaeth ddysgu i Gymru – dysgu sut i weithio ar y cyd a chynorthwyo staff.

7. Pwysleisiodd Gareth bwysigrwydd dysgu o'r prosiect hwn, sydd wedi creu ffyrdd newydd o weithio, gan wireddu amcanion cadwraeth.

8. Diolchodd y Cadeirydd i Catrin ac Alison am gyflwyniad difyr iawn, a ddangosodd bwysigrwydd gwaith partneriaeth ar y cyd ar draws Cymru a'r hyn y gellir ei gyflawni ym maes cadwraeth.

## Eitem 3 Cofnodion a Materion sy'n Codi

9. Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod mis Ionawr yn ffurfiol gyda'r mân-ddiwygiadau canlynol:
   a) Tudalen 7, pwynt 26 a – Tystiolaeth – bydd yr holl amcanion yn cael eu bodloni 'wedi eu rhoi mewn nodyn'
   b) Pwynt 28Ch – ansawdd aer – roedd y bwlch yr isaf a gofnodwyd ers wyth mlynedd
   c) Pwynt 30Ch, gwaith i'r tîm hamdden – o themâu – dileu'r 'beth'
   ch) Pwynt 34 adroddiad cyllid – Rhagfyr nid Medi
   d) Andy Middleton: bydd yn e-bostio brawddeg ychwanegol yn egluro'r bwriad o ran y gweithdy datganiadau ardal

***PWYNT GWEITHREDU – Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon copi caled terfynol o gofnodion mis Ionawr i'r Cadeirydd i'w cadarnhau'n ffurfiol***

## Cofnod Camau Gweithredu

10. Diweddariad o Bwynt Gweithredu 5 – diweddarwyd y Bwrdd ar orchymyn diwygio Harbwr Dyfrdwy, gan amlygu angen i wneid mân-ddiwygiad i Orchymyn Sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar ôl i'r diwygiad hwn gael ei wneud, bydd y gorchymyn diwygio yn gallu symud ymlaen gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

## Pwyllgorau, Cofnodion a Materion sy'n Codi

## Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth

11. Diweddarwyd y Bwrdd gan Gadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth, Syr Paul Williams, o'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 2 Mawrth ar y canlynol:

    a) Mae gwaith uwch-reolwyr a chynllunio sefydliadol ar y trywydd iawn ac yn datblygu'n dda.
    b) Mae'r cynllun gweithlu ar gyfer y sefydliad yn datblygu, a bydd yn bwydo i mewn i'r cynllun corfforaethol.
    c) Diweddariad Gwerthuso Swyddi – yn rhan o'r cynnig, bwriedir y byddai Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn 2018-19.
    ch) Diweddariad rhaglen gofal cwsmeriaid sy'n datblygu i'r cyfnod nesaf, yn ystyried datblygiad diwylliant yn y sefydliad.
    (d) Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch, nodwyd i'w gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd.
    (dd) Diweddariad gan yr Is-bwyllgor Pensiynau.

12. Nododd y Cadeirydd y pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth o ran Cynllun Ymadael Gwirfoddol ychwanegol. Cydnabuwyd gan y Cadeirydd effaith ansicrwydd i unigolion yn y sefydliad, yn enwedig o ran Gwerthuso Swyddi a chynllun sefydliadol.

13. Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth wedi ei drefnu ar gyfer 16 Mehefin.

***PWYNT GWEITHREDU – Nododd yr Ysgrifenyddiaeth gofnodion mis Mawrth y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth i'w cyflwyno i gael eu cadarnhau yng nghyfarfod cyhoeddus nesaf y Bwrdd.***

14. Diweddarodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, Nigel Reader, y Bwrdd o'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 2 Mawrth. Oherwydd absenoldeb Ruth, roedd Zoe wedi mynychu'r cyfarfod.

    a) Roedd barn Archwilydd Cyffredin Cymru wedi cael ei dderbyn ar yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2015/16.
    b) Derbyniwyd y cynllun archwilio allanol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, yn amodol ar gysylltiad agos â'r archwiliad mewnol.
    c) Cymeradwywyd y protocol perthynas rhwng archwiliad mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru ac archwiliad allanol Swyddfa Archwilio Cymru.
    ch) Cynllun plannu coed digolledu – wedi ei gymeradwyo yn amodol ar gymeradwyaeth LlC a Swyddfa Archwilio Cymru.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

d) Nododd y Bwrdd mai mis Gorffennaf fydd cyfarfod olaf Nigel fel Cadeirydd cyn iddo roi'r awenau i'r Cadeirydd newydd, Karen Balmer.

***PWYNT GWEITHREDU – Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu ag Aelodau'r Bwrdd i fynychu pan fo un neu fwy o Aelodau Bwrdd yn absennol, er mwyn cael rhagor o brofiad a gwybodaeth.***

15. Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru – ni chynhaliwyd cyfarfod gan fod y Pwyllgor yn aros i gael ei chwalu gyda Llywodraeth Cymru (LlC) yn creu Pwyllgor newydd.

16. Cyfarfu Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd newydd gael ei ffurfio ac a gadeirir gan Madeleine Havard, ar 4 Ionawr ac mae'r dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf i'w gadarnhau.

***PWYNT GWEITHREDU – Yr Ysgrifenyddiaeth i ganfasio dyddiadau newydd ar gyfer y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd ddechrau mis Gorffennaf.***

17. Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig – ni chynhaliwyd cyfarfod ers y Bwrdd diwethaf, ond nodwyd gwybodaeth a ddosbarthwyd i'r Bwrdd yn ymwneud â safleoedd a ddynodwyd. Disgwylir i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig gael ei gynnal ym mis Mehefin.

***PWYNT GWEITHREDU – Andy Middleton, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig, i ddosbarthu nodyn ymhlith y Bwrdd i esbonio camau a gymerwyd ar ddynodiadau safleoedd. Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn cael ei gynnal ar 13 Mehefin i drafod sut i symud agenda'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn ei flaen.***

## Eitem 4. Diweddariad Llesiant, Iechyd a Diogelwch

18. Darparodd Gareth O'Shea ddiweddariad Llesiant, Iechyd a Diogelwch ar ran Ashleigh Dunn, gan amlygu nifer o faterion o'r adroddiad fel a ganlyn:

a) Mae absenoldeb salwch a adroddwyd wedi cynyddu ers 2015, yn rhannol oherwydd systemau newydd ac adrodd mwy cywir. Mae'r cyfraddau hysbysu am salwch yn is o'u cymharu â chyrff cyhoeddus eraill. Mae'r lefelau salwch ar gyfer iechyd meddwl yn cael eu monitro yn ofalus, a cheir defnydd cynyddol o'r broses atgyfeirio i gynorthwyo staff.
b) Iechyd a Diogelwch – dim adroddiadau ychwanegol ers yr adroddiad diwethaf. Adroddwyd un digwyddiad colli amser oherwydd digwyddiad trydydd parti.

c) Adolygiad achos difrifol – mae'r ymchwiliad i beiriant mawr yn syrthio yn ystod mis Ionawr yn parhau.

ch) Cadarnhawyd achos Syndrom Dirgryniad Llaw a Braich arall, sy'n gwneud cyfanswm o naw o achosion adroddadwy. Mae Syndrom Dirgryniad Llaw a Braich yn parhau i gael sylw mewn meysydd o risg; mae adolygiad ar y gweill ar gael gwared â hen offer.

d) Cyflwynwyd ac adolygwyd adroddiad ar ddigwyddiadau Perygl Ffordd Galwedigaethol yng nghyfarfod y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth.

19. Trafododd Gareth yr achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a'r peryglon yn Cyfoeth Naturiol Cymru oherwydd natur ei waith a'i faint, gan bwysleisio angen am newidiadau pellach er mwyn cynorthwyo staff. Ceir cyfle i symud hyn ymlaen â thrafod yn y fforymau Cyfarwyddiaeth newydd a arweinir gan y Tîm Gweithredol, y Tîm Arweinyddiaeth a chroestoriad o staff cyfarwyddiaeth.

20. Awgrymodd y Bwrdd bwyslais ar asesiadau risg, materion iechyd a llesiant, a chysylltu hyn yn ôl i gymorth arweinyddiaeth. Cytunwyd bod angen darparu dull sefydliad cyfan yn eglur drwy'r haen reoli.

***PWYNT GWEITHREDU – Gofynnodd y Bwrdd i'r asesiadau risg a'r materion iechyd a llesiant gael eu trafod yn y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth.***

21. Nododd y Bwrdd yr adroddiad a gyflwynwyd a'r gwaith pwysig yn y maes hwn i gynorthwyo staff a'u llesiant.

## Eitem 4. Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

22. Cyflwynodd Sam Carpenter adroddiad, atodiad a chynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2016 i'r Bwrdd gan geisio cymeradwyaeth i'w cyhoeddi.

23. Amlygwyd y meysydd canlynol yn yr adroddiad gan Sam:

a) Bydd rheoliad newydd ar gyfer bylchau cyflog rhwng y rhywiau y disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn ddiweddarach yn 2017. Mae'n ymddangos bod gwahaniaeth o 7% rhwng cyflogau'r rhywiau, sy'n ymddangos yn llai na ffigur cyfartalog y Gwasanaeth Sifil. Mae gwaith ar y gweill i nodi lle mae'r problemau a sut i fynd i'r afael â nhw.

b) Cafwyd adolygiad cadarnhaol iawn o ganolfannau ymwelwyr Cyfoeth Naturiol Cymru a'r mesurau a gymerwyd i hybu cynhwysiant.

c) Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cyfoeth Naturiol Cymru – mae adolygiad o'r aelodaeth ar y gweill.

24. Cymeradwywyd a chanmolwyd yr adroddiad gan y Bwrdd fel enghraifft ragorol o lwyddiannau hyd yn hyn gan nodi'r uchelgeisiau cadarnhaol yn y cynllun i symud Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen.

## Eitem 5 – Argaeledd pren yn y dyfodol Cyfoeth Naturiol Cymru B B 16.17

25. Cyflwynodd Ceri Davies y cynllun a ddatblygwyd i greu cyfleoedd, i ddarparu cynaliadwyedd ac i fynd i'r afael â heriau yn y tymor hwy.

    Cyflwynodd Michelle Van-Velzen y Cynllun Marchnata Pren ar gyfer 2017 – 2022, gan nodi'r meysydd allweddol canlynol o her:

    - Darpariaeth barhaus cyfres eang o fanteision o'r tir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru
    - Defnyddio ein swyddogaethau galluogi er mwyn cydbwyso rheoliadau a chyngor yn llwyddiannus
    - Manteision amgylcheddol – hybu cyfleoedd

26. Nododd y Bwrdd ei gefnogaeth i'r argymhellion yn y papur, gan bwysleisio angen i ganolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gynnwys materion yn deillio o'r newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo a marchnata pren Cymru yn y DU. Cefnogodd y Bwrdd uchelgeisiau Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r gostyngiad i argaeledd pren ar ystadau preifat a LIC.

***PWYNT GWEITHREDU – Ruth Jenkins i baratoi cynllun gweithredu manwl i gefnogi gwaith marchnata pren a'i gyflwyno ar gyfer ystyriaeth y Bwrdd, yn enwedig er mwyn rhoi sylw i'r prinder a ragwelir mewn argaeledd pren.***

27. Diolchodd y Cadeirydd i Michelle a Ruth am y cyflwyniad. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai Chris Blake yn ymuno â'r grŵp gorchwyl a gorffen ar ran y Bwrdd.

## Eitem 6. Cynllun Busnes a Chyllideb Terfynol 17/18 Cyfoeth Naturiol Cymru B B 17.17

28. Cyflwynodd Kevin Ingram y gwaith ar y cynllun busnes a chyllideb terfynol ar gyfer 2017/18, a ddatblygwyd gyda chymorth is-grŵp y Bwrdd.

29. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ei gymeradwyaeth i'r gyllideb a gyflwynwyd.

30. Tynnodd y Bwrdd sylw at angen i daenlen y gyllideb gynnig mwy o fanylion am ddarpariaeth cyllideb neilltuedig, yn enwedig cyllid Cyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd. Cytunodd y Cadeirydd y dylid darparu'r dadansoddiad yn y dyfodol.

31. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Busnes a’r Gyllideb fel y’u cyflwynwyd, yn amodol ar brawfddarlleniad gofalus.

### Eitem 7. Adroddiad Diweddaru ar Gyllid – Blwyddyn Ariannol 2016-17 Cyfoeth Naturiol Cymru B B 18.17

32. Cyflwynodd Kevin Ingram yr adroddiad diweddaru ar gyllid ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Roedd canlyniadau ymarfer ailragamcanu Ch3 yn rhoi sylw i ddiwygio incwm a gwariant. Roedd cydnabyddiaeth y byddai rhywfaint o wariant yn cael ei gario drosodd i 2017/18.

33. Cymeradwyodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg y rheolaeth ariannol, sy’n glod i’r tîm rheoli. Bu gwahanol fersiynau o’r gyllideb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unol â phrotocolau. Gofynnwyd i’r Pwyllgor Archwilio a Risg adolygu’r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, ac y dylai’r adroddiad gynnwys llwybr archwilio o’r holl newidiadau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.

### Eitem 8. Datganiad Llesiant Cyfoeth Naturiol Cymru B B 19.17

34. Cyflwynodd Howard Davies bapur a oedd wedi cael ei ddiwygio a’i olygu. Gwnaed y papur diwygiedig ar gael i’r Bwrdd yn y cyfarfod datblygu ar gyfer adolygiad cynnar.

35. Diolchodd Sue Ginley i’r Bwrdd am yr adborth defnyddiol a dderbyniwyd. Roedd y golygydd wedi gwneud gwelliannau i’r ddogfen gan gadw’r negeseuon sylfaenol.

***PWYNT GWEITHREDU – Holl Aelodau’r Bwrdd i adolygu’r Datganiad Llesiant a gyflwynwyd a chyflwyno unrhyw ddiwygiadau neu sylwadau i Sue Ginley erbyn 12.00 ar 24 Mawrth.***

36. Cadarnhawyd a chymeradwywyd y dogfennau a gyflwynwyd gan y Bwrdd.

### Eitem 9. Goblygiadau Brexit i reoli adnoddau naturiol ac i Cyfoeth Naturiol Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru B B 20.17

37. Cyflwynodd Ceri Davies y papur Brexit gyda chymorth David Cavell a Brian Pawson. Gofynnwyd i’r Bwrdd gynghori ar ba un a ddylai Cyfoeth Naturiol Cymru barhau i bwysleisio gwaith ar reoli tir, y môr, ansawdd aer a goblygiadau’r Bil Diwygio Mawr neu a ddylid blaenoriaethu pynciau eraill.

38. Pwysleisiodd Ceri yr angen am gefnogaeth y Bwrdd trwy fynychu cyfarfodydd bwrdd crwn a digwyddiadau Llywodraeth Cymru. Cydnabyddir y bydd Brexit yn arwain at

oblygiadau ar draws pob maes; bydd y materion ehangach hyn yn cael eu nodi mewn trafodaethau a phapurau yn y dyfodol.

39. Cododd y Bwrdd gwestiynau i'w hystyried ymhellach fel a ganlyn:
   a) Sut allwn ni siapio'r polisi a'r cyfeiriad teithio?
   b) Beth ydym ni fel Bwrdd yn disgwyl ei wneud fel llysgenhadon?
   c) Mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru fod mewn sefyllfa well i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a'r agweddau economaidd ar y manteision ehangach.
   ch) A ydym ni wedi pennu'r lefel briodol o uchelgais ynghyd â chydymffurfiad â'r holl ddeddfwriaeth sy'n cysylltu â chylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru?
   d) Beth yw goblygiadau gwahanol senarios o ran adnoddau?

40. Canmolwyd gwaith awduron y papur, a oedd yn addysgiadol iawn, gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg. Cefnogodd y Cadeirydd yr angen i ganolbwyntio ar feysydd penodol o flaenoriaeth, gan gysylltu â gwaith cyfatebol ledled y DU, e.e. Natural England, Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ac ati.

***Pwynt Gweithredu: Brian Pawson i rannu gwybodaeth gyda'r Bwrdd yn dilyn y seminar 'Gweithdy Ymateb yr UE – Effeithiau a Chyfleoedd' ar 27 Ebrill.***

41. Nododd y Prif Weithredwr y pwysigrwydd i Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn rhan o drafodaethau yn y dyfodol ac i fod yn rhan o'r grwpiau trafod ym menter Bwrdd Crwn Brexit yr Ysgrifennydd Cabinet a chyda swyddogion LlC ar agweddau rheoleiddio.

42. Tynnodd Dave Cavell sylw at y Bil Diddymu Mawr, y disgwylir y bydd LlC yn caffael pwerau dirprwyedig yn unol ag ef.

43. Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am yr olwg gychwynnol ar y goblygiadau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â Brexit.

## Eitem 10 – Adroddiad y Cadeirydd/Adroddiad y Prif Weithredwr/Gweithgareddau Aelodau'r Bwrdd – Cyfoeth Naturiol Cymru B B 21.17 / Cyfoeth Naturiol Cymru B B 22.17 / Cyfoeth Naturiol Cymru B B 23.17

44. Adolygwyd a thrafodwyd yr adroddiadau gweithgarwch gan y Bwrdd. Mae angen datblygu cofnod gweithgareddau Aelodau'r Bwrdd ymhellach gydag awgrym o ddiweddariadau tri misol.
45. Rhoddodd Madeleine Havard y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar ôl bod yn agoriad y llwybr beicio newydd ym Mwlch Nant yr Arian.

46. Trafododd y Prif Weithredwr ei weithgareddau diweddar gan gynnwys yr uchafbwyntiau canlynol:

a) Cymryd rhan yn Ymarfer Storm Wessex a arweiniwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn
b) Cyfarfod a drefnwyd gyda Phrif Swyddogion Gweithredol asiantaethau amgylcheddol ddiwedd mis Mai

47. Cyfarfu'r Cadeirydd gyda Chadeirydd Asiantaeth yr Amgylchedd, Emma Howard-Boyd, a bydd yn trafod themâu cyffredin yn y dyfodol.

48. Cyfeiriodd Ceri Davies at gyfarfod gyda'r pum asiantaeth arall ar gyfer y DU ac Iwerddon yn Nulyn ar 20 Ebrill.

## Eitem 11 Unrhyw faterion eraill

49. Mynychodd Ruth Hall gyfarfod Cyngor yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cynrychioli Cyfoeth Naturiol Cymru, gydag agenda yn canolbwyntio ar wneud cysylltiadau da ynghylch treftadaeth naturiol.

## Cloi'r cyfarfod

50. Cafodd y cyfarfod ei gloi gan y Cadeirydd trwy ddiolch i'r Tîm Gweithredol, yr Ysgrifenyddiaeth, ac eraill a oedd wedi cynorthwyo'r trefniadau ar gyfer y cyfarfod Bwrdd.

## Cwestiynau'r cyhoedd

Ar ôl cloi cyfarfod ffurfiol y Bwrdd, gwahoddodd y Cadeirydd arsylwadau, sylwadau a chwestiynau gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol. Cadarnhaodd y rhai a oedd yn bresennol pa mor ddefnyddiol yr oedd mynychu'r cyfarfod wedi bod a gofynnwyd sawl cwestiwn penodol. Dangosir y cwestiynau hyn, ynghyd â'r ymatebion, yn Atodiad 1.

## Atodiad 1 – Cwestiynau'r Cyhoedd:

**Victor Bonutt o Glwb Pysgota a Genweirio Mynydd Cynffig** – cododd y pryderon canlynol ynghylch awgrymiadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer stociau pysgod:

- Y cynigion (dal a rhyddhau) – a fydd y dystiolaeth a gesglir i wneud penderfyniadau yn cael ei rhannu gyda'r rhai â buddiant?
- Pa dystiolaeth sydd gennym ni y bydd y camau gan bysgotwyr o dan newidiadau i is-ddeddfau yn arwain at stociau mwy?
- Beth am barhau gyda dulliau gwirfoddol?
- Hoffem weld mwy o amser ac ymdrech staff ar y gwaith hwn.
- Hoffem wybod cywirdeb y wybodaeth sy'n dod i bysgotwyr am stociau.
- Os na fydd yn gweithio, a fyddem ni'n barod i gefnu ar yr awgrymiadau?
- Nid yw dychweliadau a threialon eog wedi bod yn llwyddiannus.

<u>Ymatebodd Ceri Davies i'r prif bwyntiau fel a ganlyn:</u>

Rydym wrthi'n paratoi ein cynigion ymgynghori ar hyn o bryd yn dilyn trafodaethau gyda grwpiau rhanddeiliaid ar y dystiolaeth sydd gennym a'r hyn y dylem ystyried ei wneud o ran is-ddeddfau ond hefyd cynigion eraill fel dulliau pysgota.

Byddwn yn cyflwyno'r sail dystiolaeth i bawb ei gweld gan gynnwys gwybodaeth am lefelau hyder. Byddwn yn ceisio asesu costau a buddion yr hyn yr ydym yn ei wneud trwy asesiad effaith.

Byddwn hefyd yn eglur mai dim ond un agwedd yw newidiadau i is-ddeddfau; rydym hefyd yn defnyddio ein swyddogaeth reoleiddio i sicrhau bod yr afonydd o'r ansawdd gorau i gefnogi bioamrywiaeth. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn cynlluniau adfer afonydd i wneud yr un peth. Ond ni allwn anwybyddu'r dystiolaeth hon o stociau sy'n dirywio ac yna

peidio ag ystyried pysgota a rheolaethau rhwydi hefyd. Mae hwn yn ddull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Byddwn yn cadw meddwl agored wrth ddatblygu ein dogfen ymgynghori a chyflwyno'r sail dystiolaeth a thrwy gydol y broses ymgynghori. Byddwn yn dod i gasgliad ar ddiwedd y broses ymgynghori yn unig, ar ôl i ni ystyried yr holl sylwadau ac unrhyw dystiolaeth a gyflwynwyd drwy'r broses honno.

Rydym yn dymuno gweithio gyda grwpiau pysgodfeydd lleol a rhanbarthol a byddem yn hapus i siarad â rhanddeiliaid am ein cynigion ymgynghori.

**Martin Bishop o Confor –** Beth mae'r sector preifat yn ei wneud o ran ymateb i waith adfer safleoedd coetir hynafol a chreu coetiroedd newydd mewn mannau eraill? Mae'n anodd iawn cael caniatâd i blannu ar dir newydd.

Peidio â phlannu yw'r safbwynt diofyn ar hyn o bryd – gall gymryd tua dwy flynedd i gwblhau asesiad o'r effaith amgylcheddol, a thri mis i Cyfoeth Naturiol Cymru gynghori ar yr angen am asesiad o'r effaith amgylcheddol. Bu gostyngiad i gyfraddau plannu sector cyhoeddus a phreifat, wedi ei ysgogi gan arian UE. Mae angen i ni wella o ran plannu digolledu – rheoleiddio yw'r mater allweddol.

Nododd y Bwrdd fod ymgynghoriad ar y trothwy asesiad o'r effaith amgylcheddol yn cael ei arwain gan DEFRA ar hyn o bryd. Nododd Martin adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Gontractau Hirdymor. Dywedodd Martin ei fod wedi ymgyrchu ers amser maith am fwy o wybodaeth am goedwigaeth ar y Bwrdd a chroesawodd ddiddordeb y Bwrdd.

Ymatebodd y Cadeirydd i Martin gan gadarnhau bod trafodaeth lawn ar sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol wedi cael ei chynnal yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 2 Mawrth. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried y sylwadau hyn ac yn datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd.

**Jack Hanbury Tenison o ystâd Pont-y-pŵl –** Bu problem barhaus gyda gwastraff yn cael ei ddympio yng Nghaerffili, sy'n safle trwyddedig sy'n cael ei fonitro gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae pryderon a phroblemau wedi cael eu codi gyda'r Prif Weithredwr o'r blaen, a gwnaed perchennog y tir yn gyfrifol am gostau glanhau. Roedd Jack yn cefnogi datblygiad strategaeth yng Nghymru i hybu a datblygu gwaith rheoli safleoedd gwastraff.

Ymatebodd y Cadeirydd ynghylch cyfrifoldebau rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ymatebodd y Prif Weithredwr fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu cynigion ar sut y gellid gwella'r system rheoli gwastraff; mae trafodaethau ar y gweill rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a LlC i nodi'r pwerau sy'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru fodloni rhai o'r gofynion hyn.

Daeth y Cadeirydd i'r casgliad ei bod yn bwysig i Cyfoeth Naturiol Cymru hybu gostyngiad i weithgareddau troseddol, gan weithio'n agos gyda gweithredwyr trwyddedig fel y gall Cyfoeth Naturiol Cymru gynorthwyo'r rheini sy'n gweithredu safonau da.